Wales **Pre-school Providers** Association

Cymdeithas **Darparwyr Cyn-ysgol** Cymru

Quality for All (QfA) Factsheet

Wales PPA's quality assurance scheme

Endorsed by

Clybiau Plant Cymru KIDS' CLUBS

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**

Quality for All (QfA) can help you show how achieving, maintaining and improving the quality of care for the children in your provision is your constant aim and priority.

QfA is a quality assurance scheme that fully meets the Welsh Government's proposed framework for their expectations of a childcare quality assurance scheme in Wales. It builds on how you reflect on, review and develop your provision at a pace that suits you and your staff team. QfA links to the demands made on you by regulators and local authorities so it can reduce duplication of your work, allowing you to make best use of your resources.

How it works:

1. **Purchase the pack.** It is designed to be most easily completed electronically by saving the evaluation form from the CD to your computer.
2. **Read the guidance that is included in the pack.** There is guidance provided for each section of the evaluation form. Links and references to external documents that provide advice and knowledge as you need it are included.
3. **Start the evaluation of your provision.** There is no time limit set for completion and submission; you request assessment only when you are ready.
4. **Submit your evaluation by email.** As the provider you are in control of managing your service and the plans to improve it. Assessment of your provision starts with your written evaluation and much of the assessment will be based on what you say in the evaluation.
5. **The practice assessment.** You can expect just one assessment visit that is designed to suit your provision. A plan explaining what is expected at the visit is sent in advance.
6. **Accreditation.** You will receive a certificate to display at your provision.
7. **Staying accredited.** This is achieved by your subscription to an annual assessment of your updated evaluation, and a follow-up assessment visit which is unannounced.

Your commitment to continuous reflective practice and improvement enables you to meet regulations and local authority demands effectively and economically.

Price for	Members:	Non-members:
Guidance and evaluation pack	£120 inc VAT	£180 inc VAT
Initial assessment	£220 inc VAT	£282 inc VAT
Annual re-accreditation	£160 inc VAT	£220 inc VAT

For those with more than one provision (and local authorities with corporate membership to Wales PPA) there is a 10% discount for the second (and each additional) provision. As a result of a partnership agreement, Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs (CPCKC) members are able to access QfA at Wales PPA membership prices.

For your copy of QfA please contact: QfA co-ordinator, Wales PPA Head Office, Unit 1, The Lofts, 9 Hunter Street, Cardiff, CF10 5GX.
T: 029 2045 1242
E: info@walesppa.org

Or complete the following and send it to the address above:

Please send a copy of the Wales PPA Quality for All guidance and evaluation pack to: Name: Name of provision:
Address: Postcode:
Phone:
Email:
Wales PPA membership number: CPCKC membership number:
I enclose a cheque for £

For information on how to pay by BACS please contact Wales PPA

Here is an example from the QfA guidance section:

2.2 Activity plans and curriculum:

Each child benefits from activities that are planned to challenge, stimulate and encourage. The plans support the child's learning and development as an individual and as part of a group

Your descriptions of how you plan for children's care and activities will support the assessor's judgments about practice observed at the visit. Mention your commitment to the Foundation Phase, Forest School or Flying Start as appropriate. Briefly describe how you meet the needs of all children as individuals and in groups when planning activities for them. This will include your system for nurturing the children's cognitive, language and social development. You may want to include how you provide for firsthand learning experiences through play, and how you include risk taking opportunities for children in a secure environment.

Include your arrangements for children to contribute to the plans and the variety of ways in which you do this in order to ensure that children are invited to join the discussion about their care. Describe how you measure outcomes for children's development and review plans to meet children's changing needs. Give consideration to how you maintain confidentiality around individual needs and storage of information.

Suggested criteria

(you may meet some or all of these, or note some as actions for improvement):

- The provider's recruitment and retention policy meets the demands of the activities and curriculum plans
- The provider operates a key worker system
- Children benefit from interaction with a consistent adult throughout their day

Activities are planned and evaluated with clear reference to the provider's operational plan, risk assessment and relevant policies

Activities, planning and assessment reflect current Welsh Government and UK strategy

Children's individual plans are designed, maintained and monitored to meet the needs of the individual child

Children's individual plans are monitored and outcomes are measured, recorded and contribute to each child's future plans

A system is developed and maintained to support each child's transition to another service

Activity plans support children's access to activities and equipment

Activity plans provide opportunities for firsthand experiences for children

Activity plans include the involvement of the wider community

The provider takes account of environmental issues in planning and implementing activities and curriculum

Activity plans take account of age, ability and group size to meet the needs of the individual child

Activities ensure that age mix (sibling-type) arrangements take place and nurture children's mutual learning and development

Activity/curriculum plans use a range of methods, or learning styles, to suit individual children within groups that encourage and develop self-directed play, research and enquiry, in addition to reflecting the ethos of the provision

The voice of the child is integral to the design and development of activities

Having a Voice, Having a Choice (the children and young people's participation standards for Wales) is taken into account when planning for children's care and activities

Here is a sample of the QfA provider's self-evaluation form:

2.2 Activity plans and curriculum:

Each child benefits from activities that are planned to challenge, stimulate and encourage. The plans support the child's learning and development as an individual and as part of a group

Provider's evidence

Note here information that supports **2.2:**
Example only – more space is provided here for your use

Provider's action plan

As a result of this evaluation have you identified anything to make improvements on in your provision? Note what you intend to do, applying the term SMARTER (see guidance at 2.11) and noting any additional resources needed:	Who is responsible?
Example only – more space is provided here for your use	

Progress on action points (for your use following first accreditation and by the assessor at re-accreditation)

Use this space to track progress on any actions you have identified above:	Date:
Example only – more space is provided here for your use	

Comments by Wales PPA assessor (noting methodology used and date)

No evidence:	Working towards:	Embedded:

Dyma sampl o ffurflen hunanwerthuso darparydd o dan QfA:

2.2 Cynlluniau gweithgarwch a’r cwricwlwm:

Mae pob plentyn yn elwa ar weithgareddau sy’n cael eu cynllunio i’w herio, eu sbarduno a’u hannog. Mae’r cynlluniau’n cynorthwyo addysg a datblygiad y plentyn fel unigolyn ac fel aelod o Grŵp.

Tystiolaeth y darparydd

Nodwch eich gwybodaeth i ategu **2.2** yma**:**
Esiampl yn unig – darperir rhagor o le i chi nodi gwybodaeth

Cynllun gweithredu’r darparydd

O ganlyniad i’r gwerthusiad hwn, a ydych chi wedi adnabod unrhyw bethau ar gyfer gwella yn eich darpariaeth? Nodwch beth rydych chi’n bwriadu ei wneud, gan ddefnyddio’r ymadrodd SMARTER (gweler y canllawiau yn 2.11) a nodwch unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen:	Pwy sy’n gyfrifol?
Esiampl yn unig – darperir rhagor o le i chi nodi gwybodaeth	

Cynnydd ar y pwyntiau gweithredu (i’w ddefnyddio yn dilyn yr achrediad cyntaf a gan yr asesydd adeg ail-achredu)

Defnyddiwch y gwagle hwn i olrhain cynnydd ar unrhyw un o’r gweithredoedd rydych chi wedi eu hadnabod uchod:	Dyddiad:
Esiampl yn unig – darperir rhagor o le i chi nodi gwybodaeth	

Sylwadau’r asesydd QfA (gan nodi’r fethodoleg a ddefnyddiwyd a’r dyddiad)

Dim tystiolaeth:	Yn gweithio tuag at:	Mewnblannwyd:

Mae’r plant yn cael elwa ar ryngweithio â’r un oedolyn trwy gydol eu diwrnod

Mae gweithgareddau’n cael eu cynllunio a’u gwerthuso gan gyfeirio’n glir at gynllun gweithredu’r darparydd, yr asesiad risg a’r polisïau perthnasol

Mae’r gweithgareddau, a’r gwaith cynllunio ac asesu yn adlewyrchu strategaeth Llywodraeth Cymru a Phrydain

Mae cynlluniau unigol y plant yn cael eu paratoi, eu cynnal a’u monitro er mwyn diwallu anghenion y plentyn o dan sylw

Mae cynlluniau unigol y plant yn cael eu monitro ac mae’r canlyniadau’n cael eu mesur a’u cofnodi

Mae system yn cael ei datblygu a’i chynnal er mwyn helpu pob plentyn i drosglwyddo i wasanaeth arall

Mae’r cynlluniau gweithgarwch yn ategu gallu’r plant i gyrchu gweithgareddau ac offer

Mae’r cynlluniau gweithgarwch yn darparu cyfleoedd i’r plant gael profiadau personol

Mae’r cynlluniau gweithgarwch yn cynnwys cysylltiadau â’r gymuned ehangach

Mae’r darparydd yn ystyried materion amgylcheddol wrth gynllunio gweithgareddau a’r cwricwlwm a’u rhoi ar waith

Mae’r cynlluniau gweithgarwch yn cymryd oedran, gallu a maint y grŵp i ystyriaeth er mwyn diwallu anghenion plant unigol

Mae’r gweithgareddau yn sicrhau bod trefniadau oedran cymysg (tebyg i frodyr a chwiorydd) yn bodoli er mwyn meithrin gallu’r plant i ddysgu oddi wrth ei gilydd a hyrwyddo eu datblygiad

Mae’r cynlluniau gweithgarwch/cwricwlwm yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau, neu arddulliau dysgu, sy’n addas ar gyfer plant unigol mewn grwpiau, er mwyn hyrwyddo a datblygu eu sgiliau i arwain eu chwarae, ymchwilio ac ymgolli, yn ogystal ag adlewyrchu ethos y ddarpariaeth

Llais y plentyn sydd wrth galon y gwaith o gynllunio a datblygu gweithgareddau

Cymerir Bod â Llais Bod â Dewis (safonau cyfranogaeth plant a phobl ifanc Cymru) i ystyriaeth wrth gynllunio gofal a gweithgareddau ar gyfer y plant

Dyma esiampl o adran ganllawiau QfA:

2.2 Cynlluniau gweithgarwch a'r cwricwlwm:

Mae pob plentyn yn cael elwa ar weithgareddau sydd wedi eu cynllunio i'w herio, eu sbarduno a'u cymell. Mae'r cynlluniau'n bwydo addysg a datblygiad y plentyn fel unigolyn ac fel aelod o Grŵp

Bydd eich disgrifiadau o'r gwaith sy'n cael ei wneud i gynllunio ar gyfer gofal a gweithgareddau'r plant yn bwydo barn yr asesydd am yr arferion a welodd yn ystod ei ymweliad. Soniwch am eich ymrwymiad i'r Cyfnod Sylfaen, Ysgol y Goedwig neu Gychwyn Cadarn fel y bo'n briodol. Disgrifiwch yn gryno sut rydych chi'n mynd ati i ddiwallu anghenion yr holl blant fel unigolion ac mewn grwpiau wrth gynllunio gweithgareddau ar eu cyfer. Bydd hyn yn cynnwys eich system ar gyfer meithrin datblygiad gwybyddol, ieithyddol a chymdeithasol y plant. Efallai y byddwch am sôn sut rydych chi'n mynd ati i ddarparu ar gyfer profiadau dysgu personol trwy chwarae, a sut rydych chi'n cynnwys cyfleoedd i'r plant gymryd risgiau mewn amgylchedd diogel.

Dylech gynnwys eich trefniadau ar gyfer galluogi'r plant i gyfrannu at y cynlluniau a'r amrywiaeth o ddulliau rydych yn eu defnyddio er mwyn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i ymuno yn y drafodaeth am eu gofal. Disgrifiwch sut rydych chi'n mesur canlyniadau o ran datblygiad eich plant, ac yn adolygu'r cynlluniau i ddiwallu anghenion newidiol y plant. Ystyriwch sut rydych chi'n gadw cyfrinachedd o gylch anghenion unigol ac yn storio gwybodaeth.

Awgrymiadau o ran meini prawf

(gallwch gyflawni rhai o'r rhain neu bob un ohonynt, neu nodi rhai fel gweithredoedd ar gyfer gwella):

Mae polisi recriwtio a chadw staff y darparydd yn bodloni'r gofynion o ran gweithgareddau a'r gwaith o gynllunio ar gyfer y cwricwlwm

Mae system o weithwyr allweddol ar waith

Mae eich ymrwymiad i arferion ystyriol a gwelliannau parhaus yn eich galluogi chi i ddiwallu gofynion y rheoliadau a gofynion yr awdurdod lleol mewn ffordd effeithiol a darbodus.

Pris	I Aelodau:	I eraill:
Y pecyn canllaw a gwerthuso	£120 sy'n cynnwys TAW	£180 sy'n cynnwys TAW
Yr asesiad cychwynnol	£220 sy'n cynnwys TAW	£282 sy'n cynnwys TAW
Annual re-accreditation	£160 inc VAT	£220 sy'n cynnwys TAW

I sefydliadau â mwy nag un ddarpariaeth (ac awdurdodau lleol sy'n aelodau corfforaethol o PPA Cymru) mae disgownt o 10% ar gael i'r ail ddarpariaeth (ac unrhyw ddarpariaethau pellach). Yn sgil cytundeb partneriaeth, caiff aelodau Clybiau Plant Cymru (CPCKC) fanteisio ar QfA am yr un pris ag aelodau PPA Cymru.

I gael eich copi o QfA, cysylltwch â'r: Cydlynydd QfA, Prif Swyddfa PPA Cymru, Uned 1, The Lofts, 9 Hunter Street, Caerdydd, CF10 5GX.
Ff: 029 2045 1242
E: info@walesppa.org

Neu llenwch y canlynol a'i hanfon i'r cyfeiriad uchod:

A fyddech cystal ag anfon copi o ganllawiau a phecyn gwerthuso Ansawdd i Bawb PPA Cymru at: Enw: Enw'r ddarpariaeth:
Cyfeiriad: Cod post:
Ffôn:
E-bost:
Rhif aelodaeth PPA Cymru: Rhif aelodaeth CPCKC:
Amgaeaf siec am £

Cysylltwch â PPA Cymru i ofyn am y manylion er mwyn talu trwy BACS

Gall Ansawdd i Bawb (QfA) eich helpu chi i ddangos bod cyflawni, cynnal a gwella ansawdd gofal ar gyfer y plant yn eich darpariaeth yn nod ac yn flaenoriaeth barhaus.

Cynllun sicrhau ansawdd yw QfA sy'n llwyr fodloni fframwaith arfaethedig Llywodraeth Cymru o ran eu disgwyliadau mewn perthynas â chynlluniau sicrwydd ansawdd ar gyfer gofal plant yng Nghymru. Mae'n adeiladu ar y ffordd yr ydych chi'n ystyried, yn adolygu ac yn datblygu eich darpariaeth yn eich pwysau eich hun a'ch tîm o staff. Mae'r cynllun yn cyd-fynd â'r gofynion y mae'r rheoleiddwyr a'r awdurdodau lleol yn eu pennu ar eich cyfer, felly mae'n gallu osgoi dyblygu gwaith, gan eich galluogi chi i fanteisio i'r eithaf ar eich adnoddau.

Sut mae'r peth yn gweithio:

1. **Prynwch y pecyn.** Cynlluniwyd y pecyn fel ei fod yn hwylus i'w lenwi'n electronig. Gallwch godi'r ffurflen werthuso o'r CD a'i chadw ar eich cyfrifiadur.

2. **Darllenwch y canllawiau yn y pecyn.** Darllenwch y canllawiau ar gyfer pob rhan o'r ffurflen werthuso. Mae yna ddolenni a chyfeiriadau at ddogfennau allanol sy'n darparu cyngor a gwybodaeth yn ôl yr angen.

3. **Ewch ati i werthuso'ch darpariaeth.** Nid oes unrhyw derfyn amser ar gyfer llenwi a chyflwyno'r ffurflen; nid oes angen i chi wneud cais am asesiad nes eich bod chi'n barod.

4. **Cyflwynwch eich gwerthusiad trwy e-bost.** Fel darparydd, chi sydd wrth y llyw wrth reoli eich gwasanaeth ac unrhyw gynlluniau i wella'r ddarpariaeth. Bydd y gwaith o asesu eich darpariaeth yn dechrau gyda'ch gwerthusiad ysgrifenedig, a bydd rhan helaeth o'r asesiad yn dibynnu ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud yn y gwerthusiad.

5. **Yr asesiad ymarferol.** Gallwch ddisgwyl cael un ymweliad asesu yn unig a chaiff ei gynllunio'n bwrpasol fel ei fod yn addas ar gyfer eich darpariaeth. Cewch gynllun sy'n esbonio beth a ddisgwylir gennych adeg yr ymweliad ymlaen llaw.

6. **Ennill achrediad.** Cewch dystysgrif i'w harddangos yn eich darpariaeth.

7. **Cadw'r achrediad.** Cyflawnir hyn trwy danysgrifio i gael asesiad blynyddol o'ch gwerthusiad diweddaraf, ac asesiadau dilynol dirybudd.

Wales **Pre-school Providers** Association

Cymdeithas **Darparwyr Cyn-ysgol** Cymru

Taflen Wybodaeth Ansawdd i Bawb (QfA)

Cynllun sicrwydd ansawdd PPA Cymru

Gyda chefnogaeth

Clybiau Plant Cymru

KIDS' CLUBS

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**